*Patrwm cyflwyno: O fis Hydref i fis Mehefin*

*Disgrifiad o'r modiwl*

*Mae'r modiwl wedi'i rannu yn dri bloc astudio. Mae Bloc 1 yn cwmpasu'r technolegau ar gyfer cyfathrebu di-wifr a symudol, mae Bloc 2 yn cwmpasu technolegau ar gyfer gwaith cydweithredol a dylunio rhyngweithiadau, ac mae Bloc 3 yn cwmpasu technolegau ar gyfer diogelwch cyfrifiaduron. Bydd y modiwl yn datblygu sgiliau llythrennedd Digidol a Gwybodaeth myfyrwyr. Caiff sgiliau ysgrifennu academaidd a thechnegol eu datblygu'n gynyddol o Floc 1 i 3. Caiff pob bloc ei asesu gan diwtor (TMA) a chyfrifiadur (iCMA). Mae'r aseiniad diwedd modiwl yn brosiect unigol sy'n gofyn i fyfyrwyr ddatblygu gwefan fach i egluro datblygiad newydd testun ym maes technolegau cyfathrebu a gwybodaeth.*

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r fanyleb gyffredinol ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol ym maes Cyfrifiadureg neu Beirianneg Cyfathrebu Digidol, neu brofiad gwaith perthnasol
- diddordeb mewn cael y wybodaeth ddiweddaraf am dechnolegau cyfathrebu a gwybodaeth
- profiad o ddefnyddio meddalwedd arbenigol megis Packet tracer a VirtualBox.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o diwtora T215, TM111, TM112 neu TM129
- profiad o addysgu gwaith grŵp

*Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan*

| | |
|---|---|
| Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus: | 30 |
| Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr: | 3 |
| Dull cyflwyno aseiniadau: | 2 |
| Lefel y gofynion TGCh: | 2 |
| Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol: | 20 |
| Band cyflog: | 3 |
| Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu: | 3.5 |